

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Atgenhedlu a Gynaecoleg Cymru  
a'r Gorllewin, Clinig Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 10 Ionawr 2023

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ebrill 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-80535-787-2

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

|    |                                                                          |    |
|----|--------------------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....                                                  | 5  |
| 2. | Crynodeb o'r arolygiad .....                                             | 6  |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym .....                                             | 8  |
|    | • Ansawdd Profiad y Claf .....                                           | 8  |
|    | • Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....                               | 12 |
|    | • Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....                              | 16 |
| 4. | Y camau nesaf .....                                                      | 18 |
|    | Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..... | 19 |
|    | Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....                              | 20 |
|    | Atodiad C - Cynllun gwella.....                                          | 21 |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yng Nghlinig Abertawe o Ganolfan Atgenhedlu a Gynaecoleg Cymru a'r Gorllewin ar 10 Ionawr 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd adborth gan y cleifion yn gadarnhaol, gan ganmol y staff am eu natur gyfeillgar, eu caredigrwydd, eu tosturi a'u proffesiynoldeb.

Er bod y wybodaeth a oedd i'w gweld yn y lleoliad yn gyfyngedig, roedd gwybodaeth eang i'w gweld ar y wefan mewn perthynas â hybu iechyd ac anghenion y cleifion.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion pan oeddent yn cael eu gweld yn y lleoliad. Dangosodd trafodaethau â'r rheolwr cofrestredig fod gwasanaethau yn cael eu darparu yn y lleoliad mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau pobl.

Cafodd trefniadau addas ar gyfer cael cydsyniad dilys gan y cleifion cyn iddynt gael triniaeth eu disgrifio a'u dangos.

Roedd gan y lleoliad broses addas ar waith i'r cleifion neu eu gofalwyr roi adborth am eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, gellid gwella'r broses o roi gwybod i'r cleifion am yr adborth hwn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella'r broses adborth drwy gyflwyno system ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am yr adborth a roddwyd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddwyd adborth da gan y cleifion am y lleoliad
- Y system a ddefnyddir i gael cydsyniad gan y cleifion.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau addas ar waith yn y lleoliad i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol a pherthnasol.

Roedd trefniadau a phrosesau addas ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau ac ar gyfer dihalogi'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y lleoliad.

Roedd y meddyginiaethau a oedd yn cael eu defnyddio yn y lleoliad yn cael eu storio'n ddiogel a'u harchwilio'n rheolaidd.

Roedd cofnodion y cleifion a oedd yn cael eu cadw yn y lleoliad yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Sicrhau bod yr amrywiaeth o archwiliadau a gaiff eu cwblhau yn y prif leoliad yn Llantrisant yn cael eu cwblhau yn y lleoliad hwn hefyd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Y broses o reoli meddyginiaeth yn y lleoliad
- Roedd cofnodion y cleifion yn glir ac yn ddarllenadwy.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Roedd nodau ac amcanion y lleoliad a'r gwasanaethau a ddarperir wedi'u nodi'n glir mewn datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion cyfredol.

Roedd strwythur rheoli addas â llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ar waith. Cafodd trefniadau llywodraethu effeithiol eu disgrifio a'u dangos. Roedd adroddiadau ar y ffordd roedd y gwasanaeth yn gweithredu wedi cael eu llunio'n unol â gofynion rheoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Roedd amrywiaeth o hyfforddiant ar gael i'r staff a gwelsom gydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol i staff.

Mae angen i'r lleoliad sicrhau bod arfarniadau yn cael eu cwblhau mewn modd amserol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Cwblhau arfarniadau ar gyfer pob aelod o'r staff bob blwyddyn
- Sicrhau y caiff gwiriadau blynyddol eu cynnal i gadarnhau bod staff yn addas i'w cyflogi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn gyfredol
- Cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol i staff.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Cyhoeddodd AGIC arolygon ar-lein a holiaduron papur er mwyn casglu barn y cleifion am y gwasanaeth a ddarperir gan Ganolfan Atgennedlu a Gynaecoleg Cymru, Abertawe, fel rhan o'r arolygiad. Cafwyd cyfanswm o 12 o ymatebion papur.

Roedd yr ymatebion a'r sylwadau cyfyngedig yn awgrymu bod cleifion yn cael profiad cadarnhaol tu hwnt yn y lleoliad hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed yn canmol y staff am eu natur gyfeillgar, eu caredigrwydd, eu tosturi a'u proffesiynoldeb. Yn yr holiadur, gofynnwyd i'r cleifion roi barn ar eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Nododd 11 o'r 12 o gleifion bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' a nododd un claf ei fod yn 'dda'. Dywedodd y cleifion wrthym:

“Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar a phroffesiynol”

“Mae pob aelod o'r staff, hyd yn oed staff y dderbynfa, yn llawn tosturi”

“Roeddent yn garedig mewn sefyllfa sensitif a bregus.”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Cafwyd un awgrym ar gyfer gwella'r gwasanaeth:

“Awgrymu y dylai'r Ganolfan greu dogfennau / templedi safonol ar gyfer ... cyplau o'r un rhyw yn hytrach na defnyddio dogfennau G/B fel mater o drefn.”

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dim ond gwybodaeth gyfyngedig oedd i'w gweld yn y lleoliad am ffrwythlondeb a grwpiau hunangymorth. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth ar gael ar ran o'r wefan o'r enw 'patient information', gan gynnwys camau iach y gall pobl eu cymryd. Gwnaethom edrych ar y wefan er mwyn cadarnhau bod y wybodaeth ar gael.

Roedd ymgynghoriadau yn cael eu cwblhau ar-lein i ddechrau. Lle roedd angen i'r cleifion ymweld â'r lleoliad, roedd y staff yn gofyn iddynt am unrhyw symptomau COVID-19 cyn yr apwyntiad.

### Urddas a pharch

Nid oedd unrhyw gleifion ar y safle yn ystod ein harolygiad.

Roedd yr amgylchedd yn lân, yn olau ac yn agored. Roedd llenni yn yr ystafelloedd sganio er mwyn rhoi preifatrwydd i'r cleifion wrth iddynt newid. Dywedwyd wrthym mai dim ond un claf a oedd yn cael ei weld ar unrhyw adeg benodol yn y lleoliad, a bod digon o amser rhwng apwyntiadau i wneud yn siŵr na fyddai unrhyw glaf yno ar yr un pryd â chlaf arall. Nid oedd lifft ar gael yn y lleoliad ac roedd yr ystafelloedd ymgynghori ar lawr cyntaf yr adeilad. Byddai unrhyw gleifion nad ydynt yn gallu defnyddio'r grisiau yn cael eu gweld yn y lleoliad yn Llantrisant. Byddai'r cleifion yn cwblhau ffurflen gwybodaeth am y claf i ddechrau a fyddai'n dangos p'un a oedd angen mynediad gwastad arnynt.

Nododd pob claf a gwblhaodd yr holiadur bod digon o seddi yn yr ardal aros a bod toiledau neu gyfleusterau ymolchi digonol o fewn pellter rhesymol i'r ardal aros. Roedd pob un o'r cleifion hefyd yn cytuno fod y staff wedi'u trin ag urddas a pharch a bod mesurau wedi'u cymryd i sicrhau preifatrwydd iddynt yn ystod yr apwyntiad.

### **Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion**

Dywedwyd wrthym y byddai llyfryn gwybodaeth i gleifion yn cael ei anfon pan fyddent yn trefnu apwyntiad, sy'n cynnwys gwybodaeth am gamau i'w cymryd o ran cydsyniad, gwybodaeth am gostau ymgynghoriadau, oedrannau, cwnsela, grwpiau cymorth, triniaethau a chylchoedd a thelerau ac amodau.

Roedd y lleoliad wedi penodi nyrs sy'n siarad Cymraeg yn ddiweddar, ac roedd un embryolegydd yn dysgu Cymraeg. Hefyd, roedd un aelod o'r staff gweinyddol yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, nid oedd llawer o wybodaeth i'w gweld yn Gymraeg. Dylai'r lleoliad ddangos hysbysiad yn rhoi gwybod i'r cleifion y dylent gysylltu â'r derbynnydd os byddant am gael gwasanaeth yn Gymraeg.

Roedd gwybodaeth i'w gweld ger drws mewnol y lleoliad am y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth.

Un claf yn unig a nododd Cymraeg fel ei ddewis iaith yn yr holiadur. Dywedodd nad oedd wedi cael cynnig rhagweithiol i siarad Cymraeg ac nad oedd gwybodaeth am ofal iechyd ar gael yn Gymraeg.

Dywedwyd wrthym fod cydsyniad ar sail gwybodaeth yn cael ei roi gan y cleifion ar ôl iddynt wyllo cyfres o fideos ffrwythlondeb. Roedd prawf ar ddiwedd pob fideo ac roedd yn rhaid i'r claf basio'r prawf hwnnw cyn gallu symud ymlaen i'r cam cydsynio. Roedd yn rhaid i'r ddau barti a oedd yn rhan o'r driniaeth gwblhau'r cam hwn. Ar ôl i'r cleifion lofnodi ffurflen manylion y claf, roedd y lleoliad yn cysylltu â meddyg teulu'r claf er mwyn gwneud yn siŵr nad oedd angen iddo fod yn ymwybodol o unrhyw beth perthnasol a fyddai'n effeithio ar y driniaeth.

Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall eu gofal iechyd a bod y staff wedi gwrandao arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd y cleifion yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau drwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys dros y ffôn, drwy ymweld â'r lleoliad a thrwy gwblhau ffurflen ar-lein. Roedd system dolen sain ar gael yn y lleoliad a byddai dehonglydd lleol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion dwys-fyddar. Dywedwyd wrthym y byddai'r lleoliad hefyd yn cysylltu â dehonglydd o ddewis y claf pe byddai'n mynegi y byddai'n well ganddo hynny. Byddai trefniadau tebyg yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer cleifion dall neu gleifion sydd â nam ar y golwg. Roedd y lleoliad hefyd yn gallu cysylltu â llinell iaith ar gyfer unrhyw gleifion yr oedd angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Roedd pob un o'r cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd. Dywedodd y cleifion a atebodd y cwestiynau eu bod wedi aros llai na 15 munud am eu hapwyntiad.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Roedd y cleifion yn cael help i ddeall eu gofal a'u triniaeth drwy'r canllaw i gleifion yn ystod ymgynghoriadau. At hynny, roedd yn rhaid i'r cleifion ddefnyddio llwyfan cydsynio ffrwythlondeb lle byddai'n ofynnol iddynt wyllo cyfres o fideos addysgol yn berthnasol i'r driniaeth a chwblhau prawf ar ddiwedd pob fideo. Byddai'r nyrs yn edrych ar ganlyniadau'r prawf ac os byddai'r cwestiynau wedi cael eu hateb yn anghywir, gallai ofyn cwestiynau pellach i'r cleifion am y maes hwn, er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r broses.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Dywedwyd wrthym am y polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r hyfforddiant gorfodol, a gwelsom dystiolaeth ohonynt. Roedd y lleoliad hefyd yn cynnig triniaethau ar gyfer cyplau o'r un rhyw a gwasanaeth benthyg croth ar gyfer cyplau gwrywaidd. Dywedwyd wrthym fod un o'r nyrsys yn cael hyfforddiant ar brosesau benthyg croth. At hynny, roedd y lleoliad yn cynnig triniaethau i gleifion trawsryweddol, cyn iddynt drawsnewid.

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir

### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Disgrifiwyd y dull o gasglu barn y cleifion. Roedd holiadur adborth cleifion yn cael ei roi i bob claf, ac roedd y wybodaeth yn cael ei chasglu unwaith y mis. Roedd y

canlyniadau yn cael eu rhannu yn ystod y cyfarfodydd tîm ac roedd aelodau o staff yn cael eu canmol lle bo angen, gyda'r wybodaeth berthnasol yn cael ei lanlwytho i'r wefan ar y cyd â'r canlyniadau blynyddol. Roedd y wybodaeth flynyddol ddiweddaraf yn y datganiad o ddiben. Dylai'r lleoliad sicrhau bod y wybodaeth hon hefyd ar gael yn y lleoliad bob mis a bob chwarter yn ogystal â gosod bwrdd yn y lleoliad sy'n rhoi gwybod i'r cleifion am ganlyniadau'r adborth, fel bwrdd "dywedoch chi, gwnaethom ni".

Roedd manylion sefydliadau a chymorth eirioli er mwyn cael help i godi pryderon os byddai angen iddynt wneud hynny i'w gweld yn y lleoliad.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gwynion wedi dod i law yn ddiweddar ac nad oedd unrhyw gwynion yn mynd rhagddynt. Gellid gwneud cwyn ar lafar neu yn anffurfiol drwy gwblhau ffurflen mân gwynion a byddai'r rheolwr gweithrediadau yn ymchwilio i'r gŵyn honno. Nid oedd y lleoliad hwn wedi cael unrhyw gwynion o'r fath. Byddai unrhyw wybodaeth yn deillio o gwynion yn cael ei rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd clinig llawn bob deufis, a phe byddai'r wybodaeth yn ymwneud â thîm penodol, byddai'r adborth hwn yn cael ei roi'n syth i'r tîm hwnnw.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Dywedwyd wrthym nad oedd achosion brys yn cael eu gweld yn y lleoliad ac y byddai asesiad risg yn cael ei gwblhau ar gyfer y cleifion yn ystod eu pwynt cyswllt cyntaf er mwyn ystyried unrhyw argyfyngau iechyd posibl. Roedd hyn yn cael ei ddogfennu ynghyd â'r camau gweithredu i'w cymryd pe byddai argyfwng ac argaeledd y diffibriliwr agosaf.

Er bod yr amgylchedd yn ôl pob golwg yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn lân ac mewn cyflwr da, roedd dŵr wedi dod i mewn i'r lleoliad ar adeg yr arolygiad gan fod y to yn gollwng. Roedd ymchwiliadau yn mynd rhagddynt. Roedd y lleoliad yn addas at y diben ac roedd yn ddiogel. Nid oedd unrhyw beryglon yn yr amgylchedd, ac nid oedd unrhyw eitemau diangen na pheryglon baglu. Roedd yr amgylchedd hefyd yn diogelu preifatrwydd y cleifion. Fodd bynnag, er mwyn diogelu'r staff ymhellach, dylid gosod cloch alw frys neu fotwm panig yn yr ystafelloedd ymgynghori ac yn ardal y dderbynfa.

## Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Nid oedd unrhyw gyfarpar yn cael ei rannu ac roedd dyfeisiau meddygol aml dro yn cael eu storio a'u diheintio'n briodol. Roedd offer miniog a biniau offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel yn yr ystafelloedd ymgynghori ac roedd y lleoliad yn defnyddio cwmni arbenigol i waredu'r biniau offer miniog. Roedd posteri wedi'u gosod yn yr ystafelloedd ymgynghori a oedd yn nodi'r camau i'w cymryd yn dilyn anaf nodwydd. Yn ogystal, roedd polisi offer miniog a pholisi ar ddihalogi dyfeisiau / cyfarpar meddygol a chyfarpar untro ar waith, ynghyd â pholisi ar ddihalogi cyfarpar gofal anfewnwithiol aml dro.

Er mai dim ond yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig oedd yn bresennol yn y lleoliad ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y ddau yn ymwybodol o'u rolau mewn perthynas â rheoli heintiau. Roedd tystiolaeth bod asesiadau risg ar gyfer rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn monitro'r risgiau o heintiau. Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant atal a rheoli heintiau perthnasol.

Roedd polisiau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau ar waith a oedd ar gael i'r staff, gan gynnwys polisi rhagofalon safonol ar gyfer rheoli heintiau. Roedd adrannau'r polisi yn cynnwys cyfeiriadau at gyfarpar diogelu personol, gwastraff, hyfforddiant, iechyd galwedigaethol, rheoli gwaed a hylifau'r corff. Roedd y staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol perthnasol, fel masgiau, ffedog a menig wrth weld cleifion.

Roedd y staff yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol ar y risgiau sy'n gysylltiedig â legionella ac mae'r staff yn cofnodi'r tapiau dŵr sy'n rhedeg yn wythnosol ac yn anfon samplau o ddŵr at gontractwr er mwyn cynnal profion am legionella. Roedd asesiad risg ar gyfer legionella hefyd â dyddiad 2017 arno yn ogystal â chofnodion ar gyfer profion tapiau wythnosol.

Roedd yr archwiliadau atal a rheoli heintiau perthnasol yn cael eu cwblhau bob mis, yn bennaf yn y lleoliad yn Llantrisant. Mae angen i'r un archwiliadau gael eu cwblhau yn y lleoliad yn Abertawe hefyd.

Gwelsom yr amserlenni a'r cofnodion glanhau ar gyfer y lleoliad. Byddai'r nyrsys yn glanhau eu peiriant sganio a'u hardal glinigol eu hunain.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y lleoliad yn lân iawn. Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion wrthym fod mesurau rheoli haint COVID-19 yn cael eu dilyn lle y bo'n briodol, yn eu barn nhw. Nododd y ddau glaf arall nad oeddent yn gwybod neu nad oeddent wedi sylwi.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd gan y lleoliad gontract â chwmni a oedd yn cyflenwi meddyginiaeth iddo ac yn uniongyrchol i'r claf lle roedd angen hynny. Roedd y feddyginiaeth a oedd yn cael ei rhagnodi i'r cleifion yn cael ei chofnodi'n gyson ac yn brydlon ar gofnodion y cleifion.

Roedd gweithdrefnau da ar waith er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth gyfyngedig a oedd yn cael ei storio yn y lleoliad yn cael ei gwirio'n briodol bob wythnos a'i chadw dan glo.

Gwelsom bolisi a gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau cyfredol a oedd yn cynnwys yr agweddau perthnasol ar reoli meddyginiaethau yn y sefydliad. Roedd y lleoliad yn ymwybodol o'r angen i ddefnyddio'r cynllun cerdyn melyn ar-lein i roi gwybod am unrhyw adweithiau niweidiol posibl i feddyginiaethau.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Dywedwyd wrthym nad oedd cleifion yn cael eu hannog i ddod â'u plant i'r safle.

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith a oedd, yn ôl pob golwg, yn cydymffurfio â pholisi a deddfwriaeth genedlaethol, yn ogystal â gweithdrefnau ardal leol. Roedd y polisi wedi cael ei ddiwygio'n ddiweddar, ac roedd yn cynnwys rhifau cyswllt lleol a manylion yr hwb diogelu amlasiantaethol.

Y nyrs arwain oedd yr arweinydd diogelu dynodedig. Roedd y matrices hyfforddiant yn dangos bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu hyd at lefel

dau ar gyfer oedolion agored i niwed. O ran rhoi gwybod am bryderon, dywedwyd wrthym y byddai'r nyrs arwain yn cael gwybod am unrhyw faterion a fyddai'n cael eu nodi gan y staff.

### **Dyfeisiau meddygol, cyfarpar a systemau diagnostig**

Roedd y lleoliad yn cynnwys y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol perthnasol i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd gwaith cynnal a chadw cychwynnol ar y cyfarpar yn cael ei wneud gan y staff ac roedd y tîm rheoli hefyd yn sicrhau bod y trefniadau gwasanaethu perthnasol ar waith fel y bo angen.

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd ymgynghoriadau yn cael eu cynnal ar-lein i ddechrau. Pan fyddai'n rhaid i gleifion fynychu'r lleoliad, dim ond wythnos y byddai'n rhaid iddynt aros am apwyntiad. Roedd darparwr y driniaeth a'r claf yn cytuno ar hyd yr apwyntiad ymlaen llaw. O ganlyniad i hynny, roedd nifer y staff yn briodol i ddiwallu anghenion y claf.

Gallai'r staff gael gafael ar y polisiau a'r gweithdrefnau clinigol perthnasol ar-lein.

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Nododd y rheolwr cofrestredig fod y prif embryolegydd a'r unigolyn cyfrifol yn gwneud cyflwyniadau ar eu pynciau arbenigol yn rheolaidd i gynulleidfaoedd allanol. Roedd gan y lleoliad embryosgop hefyd er mwyn i'r cleifion weld yr embryo heb amharu arno.

### **Rheoli cofnodion**

Roedd tystiolaeth bod cofnodion clir yn cael eu cadw yng nghofnodion y pum claf y gwnaethom eu gweld. Roedd y lleoliad hefyd yn ystyried lles y plant a oedd yn cael eu geni gan ddefnyddio technegau beichiogi a gynorthwyir. Gwelsom ffurflen cydsynio ar-lein hefyd a oedd yn gadarn a chlr.

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth glir am eu hopsiynau triniaeth a rheoli er mwyn iddynt allu deall y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu. Roedd y wybodaeth hon ar gael ar bapur ac ar-lein hefyd.

Ar y cyfan, roedd y gwiriadau ar gofnodion y cleifion yn gadarnhaol gan ddangos eu bod yn cynnwys crynodeb cywir o'r meddyginiaethau a ragnodir a'r rheswm am hynny, yn ogystal â'r triniaethau a gynhaliwyd er mwyn sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu hasesu'n briodol.

Roedd yr holl gofnodion yn cael eu storio'n electronig ar y system ac roedd copïau wrth gefn yn cael eu gwneud bob dydd. Roedd negeseuon e-bost yn cael eu hanfon drwy system e-bost ddiogel.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## **Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion cyfredol ar gael yn y lleoliad. Roedd y gwasanaethau yn cael eu darparu'n unol â'r dystysgrif cofrestru a'r datganiad o ddiben.

Roedd trefniadau llywodraethu priodol ar waith, ac roedd llinell adrodd glir i'r staff ei dilyn. Gwelwyd tystiolaeth o asesiadau risg perthnasol hefyd.

Dywedwyd wrthym fod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd a bod adroddiad blynyddol wedi'i lunio ar gyfer 2022.

Gwelwyd tystiolaeth o'r cyfarfodydd a oedd yn cael eu cynnal bob deufis, a oedd yn cynnwys gwybodaeth i'r staff, fel yr adroddiad cryno ar lywodraethu clinigol, gofynion sgrinio a chyfraddau llwyddiant y lleoliad. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau hefyd yn cael eu rhannu yn y cyfarfodydd hyn.

## **Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Dywedwyd wrthym na fu unrhyw bryderon na digwyddiadau yn y lleoliad. Disgrifiwyd y system a fyddai'n cael ei defnyddio i reoli unrhyw bryderon a digwyddiadau yn foddhaol.

## **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Roedd nifer y staff a oedd yn cael eu cyflogi yn y lleoliad yn ddigonol ar gyfer y gweithgarwch a'r apwyntiadau a oedd yn cael eu trefnu. Roedd tystiolaeth eu bod yn meddu ar y cymysgedd sgiliau priodol i ddiwallu anghenion y cleifion

Dywedwyd wrthym fod cyfradd trosiant y staff a lefelau salwch yn isel. Er bod proses ar waith i sicrhau bod sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac er bod yr arfarniadau ar gyfer y nyrsys yn gyfredol, nid oedd arfarniadau ar gyfer y staff gweinyddol wedi cael eu cwblhau ers mis Gorffennaf 2021. Nododd y rheolwr cofrestredig y byddai'r rhain yn cael eu cwblhau erbyn diwedd y mis. Roedd angen i'r lleoliad sicrhau bod arfarniadau yn cael eu cwblhau mewn modd amserol.

Yn ogystal â'u hyfforddiant gorfodol, dywedwyd wrthym fod cyfleoedd eraill ar gael i'r staff ac y byddai'r sefydliad yn eu hannog ac yn eu cefnogi i ymgymryd â'r hyfforddiant hwn lle y bo'n bosibl. Gwelwyd tystiolaeth o'r matrices hyfforddiant a oedd yn cael ei gynnal i gofnodi hyfforddiant y staff, a oedd yn dangos bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Disgrifiwyd y gwiriadau cyn cyflogi perthnasol a fyddai'n cael eu cynnal. Roedd yr uwch-nyrs yn goruchwyllo'r angen i ailddilysu ar gyfer nyrsys a meddygon a oedd wedi cwblhau eu proses ddilysu gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Dywedwyd wrthym y byddai gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu cwblhau drwy TotalCRB, sef corff ambarél cofrestredig ar gyfer y DBS sy'n darparu gwiriadau DBS ar-lein ledled y DU. Er bod tystiolaeth bod y staff wedi cwblhau gwiriadau'r DBS yn y gorffennol, nid oedd y broses ardystio flynyddol gan y staff i nodi na fu unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau wedi cael ei chwblhau.

Roedd rhaglen cymorth i gyflogeion ar gael i'r staff, ac i berthnasau a dibynyddion a oedd yn cynnig help 24 awr y dydd.

Roedd y cofnodion ar gyfer statws imiwneiddio'r staff yn cael eu cadw yn y lleoliad yn Llantrisant.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd                                    | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|-------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------|----------------------------------------|--------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. |                                                        |                                        |                                |
|                                                                   |                                                        |                                        |                                |
|                                                                   |                                                        |                                        |                                |
|                                                                   |                                                        |                                        |                                |
|                                                                   |                                                        |                                        |                                |
|                                                                   |                                                        |                                        |                                |

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Canolfan Atgennhedlu a Gynaecoleg Cymru a'r Gorllewin, Abertawe

**Dyddiad yr arolygiad:** 10 Ionawr 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella                                           | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------------------------------------------------|-----------------|-----------------------------------|------------------|----------|
| Nid oes unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch. |                 |                                   |                  |          |
|                                                                      |                 |                                   |                  |          |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Canolfan Atgennedlu a Gynaecoleg Cymru a'r Gorllewin, Abertawe

**Dyddiad yr arolygiad:** 10 Ionawr 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                     | Safon/ Rheoliad                                                                                                                                        | Camau gweithredu gan y gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                        | Swyddog cyfrifol | Amserlen   |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|------------|
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion hynny a allai fod yn awyddus i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu gwneud hynny. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 13 (1). Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 9, Gwybodaeth i Gleifion a Chydsyniad Cleifion. | Byddwn yn gosod arwydd yn ardal y dderbynfa i nodi os bydd unigolyn yn awyddus i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, y dylai roi gwybod i aelod o'r staff a lle y bo'n bosibl, byddwn yn trefnu amser addas i siaradwr Cymraeg ei ffonio i drefnu/trafod. | Ann-Louise Lane  | 4 wythnos  |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig greu hysbysfwrdd mewn ardal sy'n hygyrch i'r cleifion, ar ffurf bwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' er mwyn     | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 15 (1)(a).                                                                                   | Byddwn yn trefnu i osod hysbysfwrdd yn ardal y dderbynfa i gyflwyno a chofnodi adborth a gafwyd drwy'r holiaduron a'r adolygiadau                                                                                                                        | Emma Weatherall  | 12 wythnos |

|                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                                                               |                                                                                                                                                                                    |                 |            |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------|------------|
| hysbysu'r cleifion am ganlyniadau adborth a roddwyd.                                                                                                                                                          | Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 5, Ymgysylltu â Dinasyddion a Cheisio Adborth                                                                            | bodddhad cleifion ac i nodi'r camau gweithredu rydym wedi gallu eu rhoi ar waith neu eu newid i adlewyrchu'r adborth a gafwyd.                                                     |                 |            |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan y staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain yn yr ystafelloedd ymgynghori ac yn ardal y dderbynfa ddull i gael help, fel cloch alw frys, i'w diogelu ymhellach. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 26 (2) (a).<br>Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 7, Darparu Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol. | Rydym yn ystyried system rhybuddio a fyddai'n hysbysu aelodau eraill o'r tîm pe byddai mater yn codi ac felly yn eu galluogi i ffonio unigolyn priodol gan ddibynnu ar y sefyllfa. | Amanda O'Leary  | 6 mis      |
| Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff yr un archwiliadau atal a rheoli heintiau eu cynnal yn y lleoliad yn Abertawe ag a gynhelir yn y prif glinig yn Llantrisant.                              | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 19 (2) (c) (ii).<br>Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 6, Cymryd Rhan mewn                        | Caiff hyn ei ychwanegu at y calendr archwilio fel rhan o'r broses flynyddol.                                                                                                       | Ann-Louise Lane | Ar unwaith |

|                                                                                                                                                                                                                         |                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                               |                 |            |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------|------------|
|                                                                                                                                                                                                                         | Gweithgareddau<br>Gwella Ansawdd.                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                               |                 |            |
| <b>Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod arfarniadau blynyddol yn gyfredol ac yn cael eu cynnal mewn modd amserol.</b>                                                                                        | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 20 (2) (a) a (3).<br>Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 25, Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol. | Bydd hyfforddiant yn cael ei roi i arweinwyr gweinyddol addas eraill fel y gellir parhau â'r arfarniadau hyd yn oed os bydd aelodau o staff yn absennol, heb orfod eu gohirio am gyfnodau hwy nag sydd angen. | Ann-Louise Lane | Ar unwaith |
| <b>Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y broses hunanardystio flynyddol ei chynnal ar y staff, gan ofyn iddynt ddarparu gwybodaeth i gadarnhau eu bod yn addas o hyd o ran uniondeb a chymeriad da.</b> | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 21.<br>Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 24, Arferion Recriwtio a Chyflogi'r Gweithlu.                                  | Bydd neges e-bost ar gyfer pob contract byw cyfredol yn cael ei hanfon at y cyflogeion hynny er mwyn cadarnhau eu statws a chadarnhau na fu unrhyw newidiadau.                                                | Ann-Louise Lane | 4 wythnos  |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):** Ann-Louise Lane

**Teitl swydd:** Rheolwr y Practis

**Dyddiad:** 7 Mawrth 2023